



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Y

dogfennau

y mae

angen i chi

eu hanfon

atom ni i

wneud

cais i

gofrestru

Fel rhan o'ch cais i gofrestru gyda ni,
mae angen i chi ddarparu
llungopïau, sganïau neu ffotograffau
o rai dogfennau. Weithiau bydd
angen i chi sicrhau eu bod yn cael
cyn i chi eu hanfon atom.

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 June 2022

Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o
gofalcymdeithasol.cymru ac efallai
nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/y-dogfennau-y-mae-angen-i-chi-eu-hanfon-atom-ni-i-wneud-cais-i-gofrestru> am y fersiwn diweddaraf.

Fel rhan o'ch cais i gofrestru gyda ni, mae angen i chi ddarparu llunopïau, sganiau neu ffotograffau o rai dogfennau. Weithiau bydd angen i chi sicrhau eu bod yn cael eu gwirio cyn i chi eu hanfon atom.

Y dogfennau sydd eu hangen arnoch i wneud cais i gofrestru

Gweithwyr gofal cymdeithasol

Os oes gennych gymhwyster, mae angen copïau o'ch tystysgrif cymhwyster arnom.

Os **nad ydych** wedi cael gwiriad DBS o fewn y tair blynedd diwethaf, bydd angen copi wedi'i wirio o'ch manylion adnabod â ffotograff, er enghraifft pasbort neu drwydded yrru.

Rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso yn y DU

Os ydych chi'n gwneud cais fel:

- rheolwr gofal cymdeithasol
- gweithiwr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso cyn 2007 (os gwnaethoch chi gymhwyso ar ôl y dyddiad hwn, nid oes angen copi o'ch tystysgrif cymhwyster arnom)
- gweithiwr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso gyda gradd yn y DU, ond y tu allan i Gymru

a'ch:

- **bod wedi cael** gwiriad DBS o fewn y tair blynedd diwethaf, neu eich bod ar y gwasanaeth diweddarau DBS, a'ch
- bod chi'n gwneud cais gyda chymhwyster

mae angen copi o'ch tystysgrif cymhwyster arnom.

Os **nad ydych** wedi cael gwiriad DBS o fewn y tair blynedd diwethaf, bydd angen copi wedi'i wirio o'ch manylion adnabod â ffotograff, er enghraifft pasbort neu drwydded yrru.

Myfyrwyr gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso o brifysgolion yng Nghymru

Bydd eich prifysgol yn cadarnhau eich manylion adnabod yn ystod y broses gofrestru, felly nid oes angen i chi anfon unrhyw ddogfennau atom.

Gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU

Mae angen copïau wedi'u gwirio o'r canlynol:

- eich tystysgrif cymhwyster
- eich tystysgrif geni
- manylion adnabod â ffotograff
- trawsgrifiadau o gwrs cymhwyster.

Efallai y bydd angen dogfennau eraill wedi'u gwirio arnom. Os felly, byddwn yn dweud wrthyh beth sydd ei angen arnom pan fyddwn yn prosesu eich cais.

Sut i gael eich dogfennau wedi'u gwirio

Mae gwirio yn golygu bod person cymeradwy wedi gwirio a chadarnhau bod eich dogfennau llungopïo yn ddilys.

Gall gwiriwr fod yn llofnodwr a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhain yn bobl a ddewiswyd gan gyflogwyr neu brifysgolion i helpu gyda'r broses gofrestru.

Os nad yw'r unigolyn sy'n gwirio'ch dogfennau yn llofnodwr cymeradwy, mae angen i'r person sy'n cymeradwyo'ch cais gadarnhau bod y gwiriwr yn addas.

Mwy o wybodaeth am lofnodwyr

Os ydych chi'n Unigolyn Cyfrifol nad yw wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru eto neu os nad ydych chi'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, gallwch ofyn i rywun arall wirio'ch dogfennau.

Rhaid i'r unigolyn hwn fod yn:

- berson proffesiynol (er enghraifft, person cofrestredig)
- rhywun sydd wedi'ch adnabod chi am o leiaf ddwy flynedd
- rhywun sydd ddim yn berthynas
- rhywun sydd ddim mewn perthynas bersonol â chi.

Os ydych chi'n hunangyflogedig, ni ddylai'r gwiriwr weithio i'r un sefydliad â chi oni bai eu bod mewn swydd uwch.

Beth mae angen i wiriwr ei wneud

Dangoswch y dogfennau gwreiddiol i'r gwiriwr, fel y gall gadarnhau bod unrhyw lungopïau yn ddilys.

Ar bob llungopi, mae angen iddynt:

- ysgrifennu eu henw llawn, teitl y swydd, cyfeiriad e-bost a'r dyddiad
- llofnodi eu henw
- ysgrifennu "Rwyf wedi gweld y gwreiddiol ac mae hwn yn gopi dilys".